Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rôl y cydlynydd anghenion addysgol arbennig (SENCo)

Rôl y cydlynydd anghenion addysgol arbennig (SENCo)

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol (ALlau) a gweithwyr addysg proffesiynol.

Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn darparu cyngor i ALlau a gweithwyr addysg proffesiynol am rôl y cydlynydd anghenion addysgol arbennig i gefnogi dull mwy cyson o ymarfer gan y cydlynwyr ledled Cymru.

Camau i'w cymryd

Dylai ALlau a gweithwyr addysg proffesiynol ystyried y cyngor hwn mewn perthynas â'r cymorth disgwyliedig y gall cydlynwyr anghenion addysgol arbennig ei ddarparu wrth gynllunio, pennu targedau ac ymyriadau i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

OGL © Hawlfraint y Goron Mawrth 2017 WG30417 ISBN digidol 978 1 4734 9785 6

Cynnwys

1. Cyflwyniad **2**

Ynglŷn â'r canllawiau hyn 2

Egwyddorion cyffredinol diwallu anghenion addysgol dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) 2

Diben y canllawiau hyn 3

2. Rolau a chyfrifoldebau **4**

Rôl a chyfrifoldebau cydlynwyr AAA 4

Rôl a chyfrifoldebau adrannau addysg awdurdodau lleol 5

Rôl a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion 6

Rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr addysgu 7

Rôl a chyfrifoldebau dysgwyr a'u rhieni 8

Defnyddio staff cymorth yn effeithiol 8

Rhwydweithiau cydlynwyr AAA lleol 8

3. Datblygiad proffesiynol **9**

Adnoddau 9

Atodiad A: Enghreifftiau o'r hyn sy'n rhan o rôl cydlynydd AAA effeithiol **10**

Atodiad B: Enghreifftiau o ddeunyddiau adnoddau Llywodraeth Cymru **16**

Atodiad C: Manylion cyswllt defnyddiol **17**

1. Cyflwyniad

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru[1] a'u pŵer mewn perthynas â hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru[2]. Mae'n rhoi cyngor i gyrff llywodraethu a staff ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd a gynhelir ac awdurdodau lleol (ALl) ar gefnogi rôl cydlynwyr anghenion addysgol arbennig yng Nghymru.

Yn y ddogfen hon, defnyddir y term 'lleoliad addysg' i gyfeirio at ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd a gynhelir. Defnyddir y term 'rhiant' yn unol â'i ystyr arferol yn y ddeddf addysg: mae'n cwmpasu rhieni naturiol (waeth a ydynt yn briod ai peidio), unrhyw un arall â chyfrifoldeb rhiant mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc a gofalwyr (y rhai sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc). Mae canllawiau i ysgolion ar ddefnyddio'r diffiniad hwn yn "*Rhieni" a "Cyfrifoldeb Rhiant": Canllawiau ar gyfer Ysgolion*[3] (2007).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel y sail i'w pholisïau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r dull a amlinellir yn y canllawiau hyn yn seiliedig ar ddarpariaethau CCUHP ac yn cyd-fynd â nhw: gan gynnwys bod gan blant hawl i gael addysg (Erthygl 28) ac y dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol (Erthygl 23).

Mae'r canllawiau hefyd yn cyd-fynd â'r nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[4], sef creu Cymru fwy cyfartal trwy gefnogi system addysg deg a chynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chymryd rhan.

Canllawiau anstatudol yw'r rhain. Fodd bynnag, dylai'r canllawiau gael eu defnyddio i egluro rôl y cydlynydd AAA ac annog rhannu arfer da ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol.

Egwyddorion cyffredinol diwallu anghenion addysgol dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA)

Mae gan ALl gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod darpariaeth addysgol addas ar gael i bob plentyn. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt roi sylw priodol i *God Ymarfer*

[1] Adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/10). Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 10 mewn perthynas â Chymru wedi'i throsglwyddo i Weinidogion Cymru (Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 199/672) a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 11).
[2] Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/60)
[3] Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 12/2007 (http://gov.wales/pubs/circulars/2007/nafwc1307/circularw.pdf?lang=cy)
[4] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

Anghenion Addysgol Arbennig Cymru[5] (2004), sy'n rhoi cyngor ymarferol iddyn nhw, i leoliadau addysg ac eraill ar gyflawni eu cyfrifoldeb i nodi, asesu a darparu ar gyfer dysgwyr ag AAA. Dylai ALl ystyried hefyd y *Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*[6] (2016), sy'n darparu sail iddyn nhw ac ysgolion a gynhelir wrth gynllunio gwasanaeth addysg cynhwysol sy'n canolbwyntio ar fodel o gymorth gwahaniaethol ar gyfer pob dysgwr. Mae'r *Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn amlygu'r angen i gefnogi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn derbyn yr addysg fwyaf addas sydd ei hangen arnynt ac y maent yn ei haeddu.

Mae cefnogi dysgwyr ag AAA yn fater i leoliadau addysg a'u staff. Mae gan y cydlynydd AAA rôl allweddol o ran sicrhau y caiff dysgwyr yn ei leoliad addysg sydd ag AAA ddarpariaeth addysgol arbennig. Bydd y Cydlynydd AAA yn gweithio gydag athrawon eraill a rhieni i sicrhau bod dysgwyr ag AAA yn derbyn cymorth yn ystod eu haddysg. Yn fwy na hynny, mae'r cydlynydd AAA yn rhan hollbwysig o'r gwaith o ddatblygu diwylliant o ddyheadau uchel a gwell canlyniadau i ddysgwyr ag AAA. Er bod rôl y cydlynydd AAA yn un anstatudol, bydd y rhan fwyaf o leoliadau addysg yn gallu cael mynediad at gydlynydd AAA.

Yn amodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo deddfwriaeth newydd ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol, sef rôl statudol a fydd yn disodli cydlynwyr AAA presennol. Byddai profiad a chyfrifoldebau cydlynwyr ADY yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau a wneir o dan y ddeddfwriaeth sylfaenol newydd. Bydd y canllawiau yn y ddogfen hon yn cael eu diweddaru yn unol â'r newidiadau hyn.

Diben y canllawiau hyn

Diben y canllawiau hyn yw cefnogi darpariaeth system addysg fwy cynhwysol trwy egluro rôl y cydlynydd AAA, pwy bynnag ydyw, gan gefnogi ymagwedd fwy cyson at ymarfer y cydlynydd AAA ledled Cymru. Maent yn rhoi cyngor ar gynllunio, gosod targedau ac ymyriadau a fydd yn cefnogi dysgwyr ag AAA.

Dyma nodau allweddol y canllawiau:

- egluro rolau a chyfrifoldebau cydlynwyr AAA ac eraill sy'n helpu i sicrhau bod darpariaeth addysgol addas ar gael i ddysgwyr ag AAA
- amlygu egwyddorion rôl y cydlynydd AAA
- atgyfeirio cydlynwyr AAA i gyfleoedd datblygiad proffesiynol ac adnoddau i helpu i wella eu gwybodaeth a'u harbenigedd ym maes AAA.

[5] http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/browse-all/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy
[6] http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?lang=cy

2. Rolau a chyfrifoldebau

Mae gan ALlau a lleoliadau addysg gyfrifoldebau i sicrhau bod darpariaeth addysgol addas yn cael ei darparu i ddysgwyr ag AAA. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o rolau penodol y cydlynydd AAA, ALlau, cyrff llywodraethu, ymarferwyr addysgu, dysgwyr a rhieni o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei darparu.

Rôl a chyfrifoldebau cydlynwyr AAA

Y cydlynydd AAA yw'r unigolyn â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA yn yr ysgol yn cael ei chydgysylltu. Dylai'r rôl gael ei hystyried yn yr un goleuni â rolau strategol eraill a gyflawnir yn yr ysgol.

Dylai'r cydlynydd AAA weithio'n agos gyda'r pennaeth, yr uwch-reolwyr ac athrawon eraill ar ddatblygiad strategol polisi a darpariaeth AAA. Y cydlynydd AAA sy'n gyfrifol am weithredu polisi AAA y lleoliad addysg o ddydd i ddydd a chydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA, yn enwedig trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Dylai cydlynwyr AAA fabwysiadu egwyddorion allweddol cydlynydd AAA effeithiol sy'n cynnwys ffocws ar:

- eu datblygiad proffesiynol eu hunain
- arwain, datblygu a chefnogi cydweithwyr
- gweithio mewn partneriaeth â dysgwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae mwy o wybodaeth am egwyddorion allweddol cydlynydd AAA effeithiol yn Atodiad A.

Mae *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* yn rhoi cyngor ar rôl cydlynwyr AAA mewn gwahanol leoliadau addysg. Mae'r cyfrifoldebau allweddol a ddylai fod gan bob cydlynydd AAA yn cynnwys:

- goruchwylio cofnodion pob dysgwr ag AAA ond sicrhau bod y wybodaeth berthnasol am yr unigolyn yn cael ei chasglu, ei chofnodi a'i diweddaru
- cysylltu â chydweithwyr a'u cynghori
- rheoli'r tîm o athrawon AAA a/neu gynorthwywyr cymorth dysgu
- cyfrannu at hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff
- cysylltu â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill mewn perthynas â dysgwyr ag AAA
- cysylltu ag asiantaethau allanol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth a seicoleg addysg yr ALl, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, cyrff gwirfoddol a Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol sy'n nesáu at y cyfnod ôl-16.

Os bydd y cydlynydd AAA, y pennaeth a staff eraill yn ymwybodol bod gan ddysgwr AAA cyn iddo gyrraedd y lleoliad addysg, dylent:

- mewn ffordd amserol, geisio defnyddio gwybodaeth sy'n codi o brofiad addysgol blaenorol y dysgwr i ddarparu man cychwyn i ddatblygu cwricwlwm priodol ar gyfer y plentyn
- sicrhau bod dulliau dysgu'r dysgwr yn cael eu hystyried i sicrhau parhad a dilyniant
- nodi a chanolbwyntio ar sgiliau'r dysgwr ac amlygu meysydd lle mae angen cymryd camau yn syth i gefnogi'r dysgwr yn y dosbarth
- defnyddio prosesau asesu'r cwricwlwm a'r gwaelodlin i alluogi'r plentyn i ddangos beth y mae'n ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud, ynghyd â nodi unrhyw anawsterau dysgu
- sicrhau bod gwaith arsylwi ac asesu parhaus yn darparu adborth rheolaidd i athrawon a rhieni ar gyflawniadau a phrofiadau'r dysgwr a bod canlyniadau asesiadau o'r fath yn sail i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r dysgwr
- cynnwys rhieni yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu dull dysgu ar y cyd yn y cartref ac yn yr ysgol.

Mae'n hollbwysig bod gan y cydlynydd AAA ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, gan gynnwys amser i ffwrdd o addysgu. Dylai'r pennaeth sicrhau bod y cydlynydd AAA yn cael cymorth i wneud hyn. Ni ddylai'r rôl gael ei chyfuno â chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu.

Bydd cydlynwyr AAA yn helpu ysgolion i fonitro effaith ymyriadau a'u canlyniadau i ddysgwyr ag AAA fel rhan o wybodaeth lawn yr ysgol am gyrhaeddiad ac am y dysgwyr eu hunain.

Bydd cydlynwyr AAA yn rheoli llawer iawn o wybodaeth am ddysgwyr ag AAA ac yn wybodus am faterion AAA yn gyffredinol; mae'r wybodaeth hon yn gallu cyfrannu at waith monitro a systemau'r ysgol.

Rôl a chyfrifoldebau adrannau addysg awdurdodau lleol

Dylai ALlau, mewn partneriaeth ag ysgolion, roi blaenoriaeth i'w dyletswydd statudol i hyrwyddo safonau addysg uchel i bob plentyn, gan gynnwys y rhai ag AAA. Yn aml, bydd y gwaith o ddarparu darpariaeth addysgol i ddysgwyr ag AAA yn cael ei arwain gan dîm cynhwysiant yr ALl.

Dylai ALlau, trwy eu timau cynhwysiant fel arfer, wneud trefniadau effeithiol ar gyfer AAA trwy sicrhau:

- bod anghenion dysgwyr a phobl ifanc ag AAA yn cael eu nodi a'u hasesu'n gyflym, a'u paru â darpariaeth briodol
- bod cymorth o safon uchel yn cael ei ddarparu ar gyfer lleoliadau addysg – gan gynnwys trwy seicoleg addysg a gwasanaethau cymorth eraill
- bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rhannu arfer da mewn darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA
- bod dysgwyr ag AAA yn gallu elwa ar ddarpariaeth gydgysylltiedig – trwy ddatblygu cysylltiadau agos â rhieni, ysgolion, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol

- bod gwaith cynllunio strategol yn cael ei gyflawni mewn ymgynghoriad ag ysgolion ac eraill i ddatblygu systemau ar gyfer monitro AAA a bod yn atebol am AAA.

Mae Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ALlau gyhoeddi eu polisïau AAA a gwybodaeth am sut mae'r awdurdod yn:

- hyrwyddo safonau addysg uchel i ddysgwyr ag AAA
- annog dysgwyr ag AAA i gymryd rhan lawn yn eu hysgol ac yn eu cymuned ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg
- annog ysgolion yn eu hardal i rannu eu hymarfer o ran darparu ar gyfer dysgwyr ag AAA
- gweithio gyda chyrff statudol a gwirfoddol eraill i ddarparu cymorth i ddysgwyr ag AAA.

Gan ddefnyddio'r un rheoliadau, rhaid i ALlau gyhoeddi eu trefniadau cyffredinol hefyd, gan gynnwys unrhyw gynlluniau sy'n amlinellu amcanion, targedau ac amserlenni sy'n cwmpasu trefniadau lleol ar gyfer:

- nodi dysgwyr ag AAA
- monitro'r broses o dderbyn dysgwyr ag AAA i ysgolion a gynhelir yn eu hardal
- trefnu i asesu datganiadau AAA dysgwyr, gan gynnwys unrhyw brotocolau lleol ar gyfer gwneud hynny
- darparu cymorth i ysgolion mewn perthynas â gwneud darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA
- archwilio, cynllunio, monitro ac adolygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA (yn gyffredinol ac mewn perthynas â disgyblion unigol)
- cefnogi dysgwyr ag AAA trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
- sicrhau hyfforddiant, cyngor a chymorth i staff sy'n gweithio ym maes AAA
- adolygu a diweddaru'r polisi a'r cynlluniau datblygu yn rheolaidd.

Rôl a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion

Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddyletswyddau statudol pwysig mewn perthynas â phlant ag AAA. Dylai corff llywodraethu ysgol weithio gyda'r pennaeth i benderfynu ar bolisi ac ymagwedd gyffredinol yr ysgol at ddiwallu AAA plant. Rhaid iddynt wneud trefniadau staffio ac ariannu priodol a goruchwylio gwaith yr ysgol. Gall corff llywodraethu'r ysgol benodi pwyllgor i fonitro gwaith yr ysgol ar gyfer plant ag AAA.

Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Addysg 1996 i:

- wneud pob ymdrech, wrth ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol, i sicrhau os oes gan unrhyw ddisgybl cofrestredig AAA, bod y ddarpariaeth AAA sydd ei hangen ar gyfer ei anhawster dysgu yn cael ei darparu

- sicrhau bod y ‘person cyfrifol’ yn sicrhau bod pob aelod staff sy’n debygol o addysgu’r plentyn yn ymwybodol o’r anghenion hynny. Y pennaeth yw’r ‘person cyfrifol’ fel arfer, ond gall cadeirydd y corff llywodraethu neu lywodraethwr a benodwyd gan y corff llywodraethu i ysgwyddo’r cyfrifoldeb hwnnw gyflawni’r rôl hefyd. Os mai’r pennaeth yw’r 'person cyfrifol', efallai y byddai o fudd i un llywodraethwr arall fod â buddiant mewn anghenion arbennig
- sicrhau bod yr athrawon yn ymwybodol o bwysigrwydd nodi plant sydd ag AAA a darparu addysgu priodol iddynt
- ymgynghori â’r ALl a chyrff llywodraethu ysgolion eraill yn ôl yr angen i gydgysylltu addysgu addysgol arbennig yn yr ardal
- gwneud trefniadau i alluogi plant ag AAA i gymryd rhan yng ngweithgareddau bob dydd yr ysgol, cyn belled ag y bo hynny’n ymarferol
- cyflwyno adroddiad blynyddol i rieni ar eu polisi ar gyfer plant ag AAA
- rhoi sylw i *God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* wrth gyflawni eu dyletswyddau tuag at bob plentyn ag AAA.

Rhaid i’r corff llywodraethu dderbyn plentyn y mae ei ddatganiad AAA yn enwi ei ysgol. Cyn enwi ysgol mewn datganiad, rhaid i’r ALl ymgynghori â chorff llywodraethu’r ysgol honno.

Mae gan rieni plant â datganiadau AAA yr hawl i nodi pa ysgol a gynhelir y maent am i’w plentyn ei mynychu. Rhaid i’r ALl barchu dymuniad y rhieni, cyn belled â bod yr ysgol yn addas i’r plentyn, bod y plant eraill yn yr ysgol yn cael eu haddysgu’n effeithiol a bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon.

Rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr addysgu

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn fater i’r lleoliad addysg cyfan. Mae gan y pennaeth, y cydlynydd AAA neu’r tîm AAA a phob aelod staff arall, yn enwedig cynorthwywyr addysgu, gyfrifoldebau pwysig yn hyn o beth. Dylai athrawon yn enwedig wneud cyfraniad gweithredol at helpu i nodi dysgwyr ag AAA a gwneud darpariaeth addas ar gyfer eu hanghenion.

Gan weithio’n agos gyda’r cydlynydd AAA, dylai athrawon ac, os yn briodol, cynorthwywyr addysgu:

- gyfrannu at ddatblygiad polisi AAA y lleoliad addysg
- bod yn gwbl ymwybodol o weithdrefnau’r lleoliad addysg ar gyfer nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA
- cysylltu ag athrawon eraill a’u cynghori ynglŷn â dysgwyr ag AAA
- monitro cynnydd dysgwyr ag AAA a chynghori rhieni a’r pennaeth yn unol â hynny
- sicrhau cyfraniad at ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) priodol sy’n arwain at wella sgiliau i gefnogi dysgwyr ag AAA.

Rolau a chyfrifoldebau dysgwyr a'u rhieni

Mae gan ddysgwyr ag AAA wybodaeth unigryw am eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain, ac mae ganddynt eu safbwyntiau eu hunain ynglŷn â'r math o gymorth yr hoffent ei gael i'w helpu i wneud y mwyaf o'u haddysg. Dylent deimlo'n ffyddiog y bydd rhywun yn gwrando arnynt a bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi. Dylai ysgolion sicrhau bod y dysgwr yn rhan annatod o benderfyniadau ynglŷn â'i ddarpariaeth addysgol ac annog dysgwyr i wneud cyfraniad gweithredol at wneud y penderfyniadau hyn.

Mae gan rieni wybodaeth allweddol a chyfraniad pwysig i'w wneud at addysg eu plentyn. Mae gan rieni wybodaeth a phrofiad unigryw i'w gyfrannu at y farn gyffredinol am anghenion eu plentyn a'r ffyrdd gorau o'u cefnogi. Dylai rhieni weithio'n agos gydag ysgolion ac, yn ôl yr angen, ALlau i sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth er lles pennaf eu plentyn.

Defnyddio staff cymorth yn effeithiol

Mae staff cymorth dysgu yn gallu bod yn adnodd pwysig i'r cydlynydd AAA wrth gydgysylltu darpariaeth cymorth ar draws yr ysgol. Gall staff cymorth dysgu ddarparu sgiliau arbenigol i gefnogi dysgwyr ag AAA, a byddant yn cynnig cymorth ymarferol a gweinyddol i'r cydlynydd AAA. Felly, dylai'r cydlynydd AAA gyfrannu at gydgysylltu staff cymorth dysgu a chael cyfle i ddylanwadu ar sut maent yn cael eu defnyddio yn y lleoliad. Mae staff cymorth dysgu yn un o amryw o adnoddau sydd ar gael i gydlynwyr AAA.

Rhwydweithiau cydlynwyr AAA lleol

Bydd llawer o ALlau wedi sefydlu rhwydweithiau cydlynwyr AAA. Mae rhwydweithiau cydlynwyr AAA yn galluogi cydlynwyr AAA i rannu arfer gorau ar draws lleoliadau addysg a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol. Bydd llawer o rwydweithiau cydlynwyr AAA yn trafod dulliau o fesur cyflawniad a chynnydd dysgwyr a monitro canlyniadau a disgwyliadau dysgwyr. Gall sesiynau rhwydwaith gael eu defnyddio fel cyfle am ddatblygiad proffesiynol hefyd.

Bydd ALl yn gallu rhoi cyngor ar unrhyw rwydweithiau cydlynwyr AAA yn eu hardal.

3. Datblygiad proffesiynol

Mae datblygiad proffesiynol ymarferwyr addysg yn hollbwysig i weithrediad effeithiol y system AAA. Lleoliadau addysg sy'n gyfrifol am sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i nodi anghenion dysgu proffesiynol eu gweithlu, a dylent ddarparu cymorth priodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Dylai ysgolion yn enwedig fod yn defnyddio eu cynlluniau datblygu ysgol i gyflawni'r swyddogaeth hon. Fel rhan o hyn, dylai pob lleoliad ysgol allu cael mynediad at o leiaf un unigolyn â sgiliau uwch. Y cydlynydd AAA yw'r unigolyn hwn fel arfer.

Mae ymarferwyr addysgu yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Dylent ymgymryd â dysgu proffesiynol priodol mewn perthynas ag AAA i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion pob dysgwr. Mae hyn yn hynod bwysig i'r rhai a benodir yn gydlynwyr AAA.

Mae yna lawer o ddarparwyr addysg sy'n cynnig cymorth a dysgu proffesiynol i wahanol leoliadau addysg ar ddulliau addysgu penodol i ddysgwyr ag AAA, yn ogystal â mathau penodol o AAA. Mae cymwysterau ffurfiol ar gael trwy ddarpariaeth addysg bellach ac addysg uwch, ac efallai y bydd cyfleoedd hyfforddi anffurfiol ar gael trwy ysgolion arbennig, ALlau a chonsortia rhanbarthol.

Mae'n ofynnol i bob ymarferydd addysgu gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg[7], a fydd yn cynnal y cofrestriad a'r safonau proffesiynol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Dylai cydlynwyr AAA ac ymarferwyr addysgu sicrhau bod eu cofrestriad yn cynnwys cofnod diweddar o'u rôl a'u Pasbort Dysgu Proffesiynol, a ddarperir gan Gyngor y Gweithlu Addysg, sy'n eu galluogi i gofnodi a chynllunio eu dysgu proffesiynol mewn perthynas ag AAA.

Adnoddau

Mae ymarferwyr addysgu sydd angen gwella eu gwybodaeth a/neu eu sgiliau mewn perthynas â gwahanol fathau o AAA yn gallu cael mynediad at wybodaeth, arweiniad, adnoddau a/neu ddeunyddiau hyfforddi, sydd wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru, trwy wefan Dysgu Cymru[8] a phlatfform dysgu digidol Hwb[9]. Mae rhai enghreifftiau yn Atodiad A.

Mae ALlau yn darparu gwybodaeth hefyd am fathau penodol o AAA a chyngor ar y gwasanaethau y gallant eu cynnig.

Mae llawer o wybodaeth am gydlynwyr AAA ar gael ar-lein. Er enghraifft, mae llawer o wybodaeth am rôl cydlynydd AAA, ynghyd ag arferion ar y cyd, ar YouTube (D.S. Cofiwch wirio hygrededd fideo a'r dyddiad y cafodd ei bostio i sicrhau ei fod yn berthnasol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynnwys unrhyw ddolen allanol).

[7] http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/
[8] http://dysgu.llyw.cymru/?skip=1&lang=cy
[9] http://hwb.wales.gov.uk/

Atodiad A: Enghreifftiau o'r hyn sy'n rhan o rôl cydlynydd AAA effeithiol

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu yn amlinellu'r gofynion ar bob athro, gan gynnwys cydlynwyr AAA, ac mae'r safonau ar gyfer arweinyddiaeth yn amlinellu'r gofynion ar benaethiaid. Mae'r safonau arweinyddiaeth hefyd yn cael eu defnyddio fel adnodd i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth pob ymarferydd. Mae safonau proffesiynol ar gael ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch hefyd, ac mae'r holl safonau hyn wedi'u cynnwys yn yr un ddogfen[10]. Mae'r safonau'n amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer diwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag AAA. Mae'r safonau proffesiynol hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd safonau newydd ar gael o fis Medi 2017 ymlaen ar gyfer athrawon ac erbyn mis Medi 2018 ar gyfer cynorthwywyr addysgu.

Er mwyn darparu mwy o gymorth a chyfeiriad i waith cydlynwyr AAA, mae'r dadansoddiad canlynol yn rhestr wirio ddefnyddiol ar gyfer cydlynwyr AAA ac ysgolion – mae'n cynnwys enghreifftiau o weithgareddau y gall cydlynydd AAA eu cyflawni wrth fodloni safonau proffesiynol trwy natur benodol ei rôl. Gellir defnyddio'r rhestr wirio at amryw o ddibenion, gan gynnwys hunanadolygu a/neu i gefnogi cynlluniau datblygu ysgol.

Cyd-destun proffesiynol

Gwybod a deall fframweithiau statudol a rheoleiddio a datblygiadau perthnasol ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys:

- deddfau a chanllawiau cysylltiedig ar AAA, gan gynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau a amlinellir yng *Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*, eu goblygiadau i'r lleoliad addysg, y cydlynydd AAA ac eraill a sut i'w rhoi ar waith ☐
- deddfau a chanllawiau cysylltiedig ar gydraddoldeb i bobl anabl, y camau sydd angen eu cymryd mewn perthynas â dysgwyr ag anableddau a'r ffordd orau o gymryd y camau hynny a chanllawiau perthnasol ar ddiogelu data, cyfrinachedd ac iechyd a diogelwch ☐
- saith nod craidd *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* a sut y gall y lleoliad addysg helpu dysgwyr ag AAA i fanteisio ar yr hawliau hynny ☐
- y fframwaith cyfreithiol sy'n cefnogi gwasanaethau statudol eraill. ☐

[10] http://dysgu.llyw.cymru/resources/collections/professional-standards?lang=cy

Gwybod a deall AAA sy'n codi'n aml[11] a sut y gallant effeithio ar gyfranogiad a dysgu dysgwyr, gan gynnwys:

- sut y gall datblygiad dysgwyr gael ei effeithio gan AAA a phob math o ffactorau eraill, gan gynnwys yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol lle maent yn cael eu haddysgu ☐
- rhwystrau sy'n effeithio ar gyflawniad, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag AAA ☐
- y pedwar maes y ceir anghenion ynddynt a amlinellir yng *Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* a'u goblygiadau addysgol. ☐

Defnyddio tystiolaeth o ddysgu, addysgu ac asesu mewn perthynas â dysgwyr ag AAA i lywio ymarfer, gan gynnwys:

- dangos gwybodaeth am arfer gorau presennol ☐
- dangos tystiolaeth o wella ymarfer trwy ymchwil gweithredu yn eich lleoliad ☐
- dangos dealltwriaeth o strategaethau dysgu, addysgu a rheoli ymddygiad a sut i ddewis, defnyddio ac addasu dulliau i ddileu rhwystrau i ddysgu ☐
- dangos dealltwriaeth o ymagweddau, strategaethau ac adnoddau ar gyfer asesu (gan gynnwys profion ac arholiadau cenedlaethol) a sut i'w dewis, eu defnyddio a'u haddasu i bersonoli darpariaeth a dileu rhwystrau i asesu. ☐

Datblygiad strategol polisi a gweithdrefnau AAA

Gweithio'n strategol gydag uwch-gydweithwyr a llywodraethwyr i:

- gynghori a dylanwadu ar ddatblygiad strategol ethos gynhwysol, ynghyd â pholisïau, blaenoriaethau ac arferion ☐
- sicrhau bod amcanion polisi AAA yr ysgol yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun gwella'r ysgol, neu fod modd iddynt gael eu hadlewyrchu yn y cynllun hwnnw ☐
- sefydlu adnoddau priodol i gefnogi addysgu dysgwyr ag AAA, a'r dull o fonitro'r defnydd ohonynt o ran gwerth am arian, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ☐

[11] Anghenion addysgol arbennig sy'n codi'n aml yw'r rhai sy'n codi'n fwy aml yn y boblogaeth gyffredinol.

- datblygu a darparu gwybodaeth reolaidd i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth i ddysgwyr ag AAA i lywio penderfyniadau ac adolygiadau polisi ☐

- sicrhau bod cynnydd dysgwyr ag AAA yn cael ei olrhain trwy system olrhain yr ysgol gyfan. ☐

Deall cynlluniau ariannol strategol, sut i reoli cyllideb a sut i ddefnyddio adnoddau yn unol ag egwyddorion gwerth gorau, gan gynnwys:

- y ffyrdd mae cyllid ar gyfer dysgwyr ag AAA yn cael ei ddarparu i leoliadau addysg, gan gynnwys trefniadau ariannu lleol ac, os yn briodol, sut i gael adnoddau ychwanegol i gefnogi myfyrwyr ag AAA ☐

- sut mae cyllid ar gyfer dysgwyr ag AAA yn cael ei ddefnyddio yn y lleoliad addysg ☐

- sut i reoli'r adnoddau ariannol, dynol a ffisegol sydd ar gael, a gwneud y defnydd gorau ohonynt, gan gynnwys sut i ddefnyddio adnoddau megis mapio darpariaeth i gynllunio, gwerthuso a gwella darpariaeth i ddysgwyr ag AAA, gan gynnwys nodi darpariaeth aneffeithiol neu goll. ☐

Darparu tystiolaeth o strategaethau ar gyfer gwella canlyniadau i ddysgwyr ag AAA, gan gynnwys:

- dangos dealltwriaeth dda o strategaethau ar gyfer dileu rhwystrau i gymryd rhan a dysgu i ddysgwyr ag AAA ☐

- gwybod am strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â stereoteipio a bwlio yn ymwneud ag AAA ☐

- deall potensial technolegau newydd i gefnogi cyfathrebu, dysgu ac addysgu i ddysgwyr ag AAA ☐

- mapio darpariaeth a gwerthuso'r effaith ar ganlyniadau. ☐

Cydgysylltu darpariaeth

Datblygu, defnyddio, monitro a gwerthuso systemau ysgol gyfan yn strategol i:

- nodi dysgwyr a all fod ag AAA (trwy waith olrhain cadarn), gan ddefnyddio arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, data, asesu a dulliau monitro eraill ☐
- hysbysu pob aelod staff am anghenion dysgu, ymddygiad a chyflawniad dysgwyr ag AAA ☐
- helpu cydweithwyr i feithrin disgwyliadau realistig ynghylch ymddygiad dysgwyr ag AAA a gosod targedau sy'n cynnig heriau priodol ar eu cyfer ☐
- cynllunio ymagweddau ac ymyriadau i ddiwallu anghenion dysgwyr ag AAA gyda'r nod o ddileu neu leihau rhwystrau i gymryd rhan a dysgu ☐
- cofnodi ac adolygu cynnydd dysgwyr ag AAA tuag at dargedau dysgu ☐
- asesu effeithiolrwydd darpariaeth i ddysgwyr ag AAA ☐
- cydgysylltu trefniadau priodol (mewn ymarfer ystafell ddosbarth ac ar gyfer yr arholiadau/profion eu hunain) ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll profion ac arholiadau cenedlaethol ☐
- cydgysylltu'r gwaith o gysylltu â lleoliadau addysg eraill i hyrwyddo parhad cymorth a dilyniant dysgu pan fo dysgwyr ag AAA yn cael eu trosglwyddo. ☐

Defnyddio adnoddau i gasglu, dadansoddi a defnyddio data i:

- wybod sut mae'r systemau data cenedlaethol, y lleoliad addysg a'r ALl yn gweithio, gan gynnwys mentrau cenedlaethol perthnasol ☐
- dadansoddi a dehongli data lleol a chenedlaethol perthnasol, ynghyd â data'r lleoliad addysg, er mwyn llywio polisi ac arferion, disgwyliadau a thargedau ar gyfer gwella dysgu dysgwyr ag AAA. ☐

Defnyddio staff a rheoli adnoddau i:

- sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o addysgu ac arbenigedd arall i gefnogi dysgwyr ag AAA ☐
- gwneud defnydd hyblyg ac arloesol o'r gweithlu sydd ar gael, gan gydnabod a defnyddio cryfderau penodol ac arbenigedd yr adnoddau. ☐

Arwain, datblygu a chefnogi cydweithwyr

Darparu cyfeiriad proffesiynol i waith eraill i:

- arwain ar ddatblygu polisïau ac arferion yn ymwneud â dysgwyr ag AAA a hyrwyddo cyfrifoldeb cyfunol dros eu rhoi ar waith ☐
- arwain y gwaith o hyrwyddo diwylliant o arfer gorau mewn dysgu ac addysgu mewn perthynas â dysgwyr ag AAA ar draws yr ysgol ☐
- hyrwyddo gwelliannau mewn dysgu ac addysgu, gan gynnig enghreifftiau o arfer da i athrawon eraill ac i staff cymorth o ran nodi, asesu a diwallu anghenion dysgwyr ag AAA ☐
- sicrhau bod pob aelod staff yn cydnabod eu cyfrifoldebau statudol tuag at ddysgwyr ag AAA ☐
- helpu staff i feithrin cysylltiadau gwaith adeiladol gyda dysgwyr ag AAA a'u rhieni. ☐

Arwain a datblygu staff i:

- fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o gyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael i'r gweithlu addysg (gan gynnwys staff cymorth ac athrawon newydd gymhwyso) i wella eu hymarfer wrth weithio gyda dysgwyr ag AAA ☐
- rhoi adborth a darparu cymorth i gydweithwyr sy'n addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu ar ddysgu, addysgu ac asesu effeithiol i ddysgwyr ag AAA ☐
- modelu ymarfer effeithiol a hyfforddi a mentora cydweithwyr ☐
- cynghori ar ddatblygiad proffesiynol staff, cyfrannu ato, a lle bo'n briodol, ei gydgysylltu, fel y gallant wella eu hymarfer mewn perthynas â dysgwyr ag AAA ☐
- cefnogi hyfforddiant, sefydlu a dysgu proffesiynol athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd gymhwyso ac, os yn briodol, cynorthwywyr addysgu mewn perthynas â safonau proffesiynol perthnasol. ☐

Gweithio mewn partneriaeth â dysgwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill

Ymgysylltu â ffynonellau cymorth ac arbenigedd allanol i:

- ddeall rôl a gwerth teuluoedd a gofalwyr dysgwyr ag AAA ☐
- gwybod am yr amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda dysgwyr ag AAA a'u rôl o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ☐
- deall egwyddorion amlasiantaethol ☐
- defnyddio cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ☐
- gwybod sut i elwa ar gymorth ac adnoddau arbenigol i ddysgwyr ag AAA, gan gynnwys cymorth ac adnoddau o ysgolion arbennig a darpariaeth neu wasanaethau arbenigol eraill ☐
- datblygu cysylltiadau gwaith effeithiol â gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau ac asiantaethau eraill, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol, i gefnogi ymagwedd gydlynol, gydgysylltiedig ac effeithiol at gefnogi dysgwyr ag AAA. Dylai hyn gynnwys cynlluniau pontio ar gyfer dysgwyr ôl-16 ☐
- gwybod sut i ddehongli gwybodaeth arbenigol gan weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill i gefnogi dysgu ac addysgu priodol i ddysgwyr ag AAA a helpu cydweithwyr i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath. ☐

Ymgynghori, ymgysylltu a chyfathrebu â dysgwyr, cydweithwyr a rhieni i wella dysgu a chyflawniad dysgwyr i:

- sicrhau bod dysgwyr ag AAA yn rhan o'r gwaith o gynllunio, cytuno, adolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer, os yw'n briodol ☐
- cyfathrebu'n effeithiol â rhieni dysgwyr ag AAA, gan ystyried eu barn a darparu gwybodaeth amserol a pherthnasol am gyflawniad, targedau, cynnydd a lles y dysgwyr hynny. ☐

Atodiad B: Enghreifftiau o ddeunyddiau adnoddau Llywodraeth Cymru

Dysgu Cymru

Deunyddiau AAA a Chynhwysiant:
http://dysgu.llyw.cymru/resources/improvementareas/inclusion/?lang=cy

Fframwaith anawsterau dysgu penodol:
http://dysgu.llyw.cymru/resources/collections/spld-framework?lang=cy

Hwb

Gweithgareddau AAA:
http://hwb.wales.gov.uk/resources/resource/82088186-1854-40ae-994d-8790c0b08f13/cy

Datblygu sgiliau llythrennedd sylfaenol:
http://hwb.wales.gov.uk/resources/resource/00647064-a54c-46c4-8b18-d69a7d7e1075/cy

Atodiad C: Manylion cyswllt defnyddiol

Nam ar y synhwyrau

1. Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
   Cyswllt: 0303 123 9999
   http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1

2. Action on Hearing Loss (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar)
   Cyswllt: 0808 808 0123
   Ffôn testun: 0808 808 9000
   http://www.actiononhearingloss.org.uk/default.aspx

3. SENSE Cymru – gwasanaethau ledled Cymru ar gyfer pobl fyddar a dall a'u teuluoedd
   Cyswllt: 0300 330 9280
   Ffôn testun: 0300 330 9282
   http://www.sense.org.uk/content/sense-cymru-wales

4. Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru (NDCS)
   Ffôn: 0808 800 8880
   www.ndcs.org.uk/family_support/support_in_your_area/wales

Lleferydd ac iaith

5. AFASIC Cymru – datgloi lleferydd ac iaith
   Llinell gymorth: 0300 666 9410
   Ffôn: 02920 465854
   http://www.afasiccymru.org.uk/

Anawsterau dysgu

6. Anabledd Dysgu Cymru
   Ffôn: 02920 681160
   https://www.adcymru.org.uk/

7. Dyslexia Action
   Ffôn: 02920 481122
   http://www.dyslexiaaction.org.uk/

8. Dyslecsia Cymru
   Ffôn: 0808 1800 110
   http://www.walesdyslexia.org.uk/?lang=cy

9. MENCAP Cymru
   Llinell gymorth: 0808 808 1111
   https://www.mencap.org.uk/

10. Prosiect Cynghori Anghenion Arbennig (SNAP) Cymru
    Ffôn: 0845 120 3730
    http://www.snapcymru.org/?lang=cy

Awtistiaeth

11. Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
    Ffôn: 0808 800 4104
    http://www.autism.org.uk/?sc_lang=cy-GB

Iechyd meddwl

12. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
    http://www.mental-health-matters.org.uk/page151.html

13. Mind Cymru
    Caerdydd: 02920 395123
    http://www.mind.org.uk/

Sefydliadau cymorth meddygol

14. National Attention Deficit Disorder Information and Support Service (ADDiSS)
    Cyswllt: 0208 952 2800
    http://www.addiss.co.uk/

Sefydliadau cymorth cyffredinol

15. Gweithredu dros Blant
    Cyswllt: 0300 123 2112
    https://www.actionforchildren.org.uk/

16. Barnardo's Cymru
    Caerdydd: 02920 493387
    http://www.barnardos.org.uk/cym/what_we_do/corporate_strategy/wales.htm

17. Plant yng Nghymru
    Caerdydd: 02920 342434
    http://www.plantyngnghymru.org.uk/

18. Action for sick children
    Rhadffôn: 0800 744519
    http://www.actionforsickchildren.org.uk/

Cyrff cyhoeddus

19. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
    Cyngor: 0808 800 0082
    Ffôn testun: 0808 800 0084
    http://www.equalityhumanrights.com/

20. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
    Llinell wybodaeth: 08701 545500
    Caerdydd: 02920 263000
    http://www.hse.gov.uk/

21. Comisiynydd Plant Cymru
    Abertawe: 01792 765600
    Ffôn: Conwy 01492 523333
    https://www.complantcymru.org.uk/

22. Cyswllt Teulu Cymru – ar gyfer teuluoedd â phlant anabl
    Llinell gymorth am ddim: 0808 808 3555
    http://www.cafamily.org.uk/

23. Galw Iechyd Cymru
    Ffôn: 0845 46 47
    http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/contactus/feelingunwell?locale=cy